**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / remotely via video conference ddydd Dydd Iau, 16 Ionawr 2025**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Keith Evans, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Chris James, Elaine Evans, Rhodri Evans, Amanda Edwards.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro; Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol; Elizabeth Upcott, Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd Corfforaethol; Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil; Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a'r Cyfieithwyr.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Aelodau Cabinet: Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd.

Y Cynghorwyr Gareth Lloyd, Keith Henson, Euros Davies a Catrin MS Davies.

(10am – 12:55pm)

**33 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. Ymddiheurodd y Cynghorydd Ceris Jones a'r Cynghorydd Caryl Roberts am na fedrent ddod i'r cyfarfod.
2. Ymddiheurodd y Cynghorydd Mathew Vaux am na fedrai ddod i'r cyfarfod.
3. Dywedodd y Cynghorydd Marc Davies wrth y Pwyllgor y byddai'n gadael am 12:15pm am ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

**34 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir Aelodau am eu cyfrifoldeb personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig a materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol a darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan**

**unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**
Dim

35 **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Bu i'r Cadeirydd ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

36 **Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y cyd CYSUR / CWMPAS Ch 2 2024/2025**

Croesawyd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet ac Elizabeth Upcott, y Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd Corfforaethol i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau a gyflwynwyd:

- Roedd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau yr oedd angen eu danfon ymlaen i'w hystyried dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant - o 274 yn Chwarter 1 i 263 yn Chwarter 2.
  Derbyniwyd 610 o atgyfeiriadau yn Chwarter 2. Aeth 43.1% ymlaen i gamau Trafodaethau Strategaeth, aeth 13% ymlaen i gamau ymholiadau Adran 47 ac aeth 2.8% ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol.
- Roedd 23 o blant/pobl ifanc yn destun Cynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol yn Chwarter 2 o'i gymharu â 31 yn Chwarter 1.
- Yn Chwarter 2 roedd nifer y plant/ y bobl ifanc a gafodd eu rhoi ar y gofrestr yn 23.
- Cynhaliwyd 15 o gynadleddau adolygu yn y chwarter hwn a chafodd 10 plentyn/person ifanc eu tynnu oddi ar y gofrestr.
- Yr Heddlu oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn ystod y chwarter hwn. Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan Addysg yn y chwarter hwn.
- Cynhaliwyd 79 o Ymholiadau Adran 47 yn ystod y chwarter hwn, cynhaliwyd 67 ar y cyd â'r Heddlu a chynhaliwyd 12 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel asiantaeth sengl.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at Ymholiad Adran 47 oedd cam-drin corfforol ac yna cam-drin / camfanteisio rhywiol. Mae hyn yn gyson â phatrwm y chwarteri blaenorol.
- Cynhaliwyd 69.6% o'r Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol o fewn yr amser, sy'n welliant bychan o'i gymharu â Chwarter 1 ond mae'n glir nad yw hyn yn cydymffurfio â'r amserlenni statudol o hyd. Mae'n ymddangos taw argaeledd gweithwyr proffesiynol oedd y prif resymau dros yr oedi cyn cynnal y cynadleddau, gyda'r angen i sicrhau bod gan y cyfarfodydd gworwm.
- Cynhaliwyd 87% o'r Grwpiau Craidd o fewn yr amser.
- Cynhaliwyd 90.9% o gyfarfodydd yr Adolygiadau Pryderon Proffesiynol o fewn yr amser.
- O'r 46 o blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd Chwarter 2, y prif ffactorau risg oedd problemau iechyd meddwl y rhieni, rhieni'n gwahanu a cham-drin domestig.
- Nododd 10 cynhadledd fod y rhieni yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Prosiect Ysbrydoli Teuluoedd ac atgyfeiriwyd 5 o'r achosion hyn. Atgyfeiriwyd 1 achos hefyd i'r Rhaglen Cyflawnwyr Choices. O'r 5

achos a oedd yn weddill, nododd 4 fod angen ystyriaeth bellach ynghylch hyn ac nid oedd y rhiant yn ymgysylltu â'r broses yn yr achos arall.

- O'r 46 o blant ar y gofrestr, roedd 20 ar y gofrestr oherwydd esgeulustod, 18 oherwydd cam-drin emosiynol/seicolegol, 3 oherwydd cam-drin/ecsbloetio rhywiol, 3 oherwydd esgeulustod a cham-drin corfforol a 2 oherwydd cam-drin corfforol.
- O'r 10 plentyn a ddatgofrestrwyd yn ystod y chwarter, roedd 7 yn derbyn ymyrraeth bellach drwy gynllun gofal a chymorth, roedd angen i'r Awdurdod Lleol ofalu am 1 plentyn ac nid oedd angen gwasanaethau cymorth pellach ar y 2 blentyn arall.

**DIOGELU OEDOLION:**

- Roedd gostyngiad amlwg yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso, yn ystod y chwarter hwn. Ers Chwarter 2, 2023/2024, bu cynnydd fesul chwarter, yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, yn ystod y chwarter hwn bu gostyngiad sylweddol o 227 yn Chwarter 1 eleni i 170 yn Chwarter 2. Nid yw'r rheswm am y gostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd, yn amlwg ar hyn o bryd.
- Yr Heddlu oedd prif ffynhonnell yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y chwarter hwn ac yn dilyn hynny y ffynonellau eraill oedd staff yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd ac asiantaethau Darparwyr.
- Y categori cam-drin a adroddwyd amdano fwyaf yn y chwarter hwn oedd Cam-drin emosiynol / seicolegol (87 adroddiadau). Esgeulustod (64) oedd nesaf ac yna Cam-drin Corfforol (48), Esgeulustod (64), Cam-drin Ariannol (21) a cham-drin rhywiol (12).
- Mewn perthynas â'r holl gategorïau cam-drin, roedd mwy o fenywod yn ddioddefwyr o gymharu â dynion. Fodd bynnag, yn y categori Esgeulustod, er bod yr adroddiadau'n nodi bod mwy o fenywod yn ddioddefwyr (35 adroddiad), roedd nifer y dioddefwyr gwrywaidd hefyd yn uchel (27 adroddiad).
- Roedd rhan fwyaf y gamdriniaeth/esgeulustod yn digwydd yng nghartref yr unigolyn ei hun. Roedd hefyd yn digwydd mewn lleoliadau cymunedol, lleoliadau gofal iechyd a chartrefi gofal.
- Adroddwyd bod rhan fwyaf y gamdriniaeth/esgeulustod wedi digwydd yng nghartrefi'r bobl eu hunain, gyda pherthynas / cyfaill yn bennaf gyfrifol am y gamdriniaeth/esgeulustod a gofnodwyd. Cartrefi gofal oedd y categori nesaf, gyda gweithwyr cyflogedig yn gyfrifol am y gamdriniaeth/esgeulustod honedig.
- Adroddwyd mai perthynas / cyfaill i'r dioddefwr oedd yn bennaf gyfrifol am y gamdriniaeth/esgeulustod honedig a'r ail gategori oedd gweithiwr cyflogedig.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r rheswm paham nad oedd y canrannau o ran Cynadleddau Amddiffyn Plant yn 100%, cadarnhaodd y Swyddog fod cynlluniau ar waith i ddatrys y materion hyn a dywedodd nad oedd y sefyllfa yn dderbyniol. Hefyd,

cadarnhaodd y Swyddog fod pob swydd o fewn y gwasanaeth bellach wedi'u llanw.

- Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd rheswm penodol paham mai dim ond 2 o'r 35 o bobl oedd wedi darparu adborth. *(Roedd holiaduron gwerthuso wedi'u darparu i blant/pobl ifanc (o'r oed priodol / sydd â lefel briodol o ddealltwriaeth), rhieni a gofalwyr a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter. Roedd 35 o holiaduron wedi'u dosbarthu a dim ond 2 (5.7%) wedi'u dychwelyd).* Dywedodd y Swyddog nad oedd hyn yn syndod am fod natur y cynadleddau hyn yn anodd i'r teuluoedd. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddog fod adborth rheolaidd yn cael ei roi ar lafar.
- Codwyd cwestiwn ynglŷn â'r Gwasanaethau Dysgu, (Adran 10 ym mhapurau'r agenda) – gofynnwyd a oedd athrawon wedi'u cynnwys yn y ffigurau a ddarparwyd. Cadarnhaodd y Swyddog fod y ffigurau yn cynnwys pawb yn y Gwasanaethau Dysgu.
- Mynegwyd pryder ynghylch y broses o fonitro plant a oedd yn cael eu haddysgu gartref. Cynigiwyd i argymell bod y Cabinet yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i fynegi pryderon nad oedd gofyniad cyfreithiol yn y ddeddfwriaeth bresennol i rieni hysbysu Awdurdodau Lleol am y ffaith eu bod yn bwriadu addysgu eu plant yn y cartref. Byddai gofyniad fel hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r Awdurdod gyflawni ei ddyletswydd o ran sicrhau bod pob plentyn yn ei ardal yn derbyn addysg briodol. Trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref, byddai modd iddynt ddarparu cymorth ar eu cyfer. Eiliwyd y cynnig hwn a chytunwyd iddo.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

**Argymhelliad:** Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol

**Rheswm dros y penderfyniad:** fel bod trefniadau llywodraethu'r Awdurdod Lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu monitro.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol. **Cynigiwyd i argymell bod y Cabinet yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i fynegi pryderon nad oedd gofyniad cyfreithiol yn y ddeddfwriaeth bresennol i rieni hysbysu Awdurdodau Lleol am y ffaith eu bod yn bwriadu addysgu eu plant yn y cartref. Eiliwyd y cynnig hwn a chytunwyd iddo.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am gyflwyno'r wybodaeth ac am y gwaith rhagorol yr oedd y gwasanaeth yn ei wneud.

**37 Canlyniadau Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol (ar 10 Medi 2024)**

Croesawodd y Cadeirydd Rob Starr, y Rheolwr Ymchwil a Pherfformiad i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad am Broffil Perfformiad yr Awdurdod Lleol.

Bu i'r Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, longyfarch yr Awdurdod am adroddiad cadarnhaol. Ar y cyfan, roedd gan Geredigion 13 o fesurau yn y chwartel uchaf, 12 yn y chwartel canol uchaf, 2 yn y chwarter canol isaf a 7 yn y chwartel isaf.

Roedd Data Cymru wedi datblygu teclyn data perfformiad newydd i gefnogi awdurdodau lleol i ddeall eu perfformiad cyffredinol yn well ac i gefnogi Asesiadau Perfformiad gan Banel a gychwynnodd ym mis Medi 2024.

Enw'r teclyn newydd yw Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol Cymru ac mae'n cynnwys detholiad o 34 o fesurau perfformiad allweddol ar draws 11 thema, ynghyd ag amrywiaeth o ddata cyd-destunol sy'n darparu'r cefndir. Dim ond ar ddangosfwrdd Power BI y mae'r proffil ar gael. Nid oes yna fersiwn bapur.

Un o'r prif ddefnyddiau a wneir o Broffil Perfformiad yr Awdurdodau Lleol yw cefnogi'r cymheiriaid sy'n ymgymryd ag Asesiadau Perfformiad gan Banel i ddeall sut mae'r Awdurdod Lleol yn perfformio ar hyn o bryd. Cafodd ei ddefnyddio gan y Panel fel rhan o'r Asesiad Perfformiad gan Banel a gynhaliwyd yng Ngheredigion rhwng 30 Medi a 3 Hydref.

Bydd y Proffil yn parhau i gael ei ddatblygu yn y dyfodol, felly bydd yr ystod o fesurau sydd wedi'u cynnwys a'r swyddogaethau sydd ynghlwm wrtho yn parhau i wella ymhellach.
Cafodd Proffil Perfformiad yr Awdurdodau Lleol ei ddiweddaru diwethaf ar 10 Medi ac roedd y canfyddiadau cyffredinol yn dangos y canlynol:

• Mae Ceredigion yn yr ail safle o ran  y nifer uchaf o fesurau perfformiad yn y chwartel uchaf. Mae 13 o'r 34 mesur yn y chwartel uchaf.
• Mae Ceredigion yn un o ddau awdurdod sydd â'r nifer uchaf o fesurau perfformiad yn y chwartel uchaf a'r chwartel canol uchaf sef 25 allan o 34.
• Mae 73.5% o fesurau Ceredigion yn y chwartel uchaf a'r chwartel canol uchaf.
67.6% yw ffigwr yr awdurdod sydd agosaf at Geredigion. (Mae cyfanswm y mesurau ar gyfer pob awdurdod lleol yn amrywio ychydig oherwydd mân wahaniaethau yn y gwasanaethau a ddarperir, er enghraifft, mae rhai awdurdodau wedi cadw eu stoc tai).
• Mae perfformiad Ceredigion hefyd wedi gwella o ran y 21 mesur (neu 65.6%) sydd yn y chwartel uchaf a'r chwartel canol uchaf o gymharu â'r canlyniadau blaenorol.
• Ar y cyfan, roedd gan Geredigion 13 o fesurau yn y chwartel uchaf, 12 yn y chwartel canol uchaf, 2 yn y chwartel canol isaf a 7 yn y chwartel isaf.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae Ceredigion yn eu hwynebu drwy fod yn un o'r awdurdodau a ariennir isaf, ynghyd â'r heriau sy'n deillio o fod â phoblogaeth wledig wasgaredig, mae'r canlyniadau hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol bod y Cyngor nid yn unig yn cyflawni ei

swyddogaethau'n effeithiol ond ei fod hefyd yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Ar ran y Prif Weithredwr, manteisiodd Barry Rees, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, ar y cyfle i ddiolch i bawb o fewn yr Awdurdod (yr Aelodau Etholedig a'r Swyddogion) a fu'n rhan o'r gwaith hwn. Roedd yr adroddiadau archwilio cadarnhaol a gafwyd yn ddiweddar oddi wrth Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru yn dystiolaeth bellach o'r gwaith rhagorol hwn. Dywedwyd mai'r hyn oedd angen ei wella yn awr oedd canfyddiad y cyhoedd. Roedd yr adroddiad nesaf ar yr agenda yn awgrymu y gallai hynny fod yn heriol.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd nad oedd ystadegau ar gael hyd yma ar gyfer medru cymharu pob awdurdod unigol drwy Gymru. Fodd bynnag, roedd Data Cymru yn gobeithio datrys hyn o fewn y misoedd nesaf. Dywedodd yr Aelodau y byddai medru cymharu ag awdurdodau lleol eraill yn fuddiol o gofio'r cyfleoedd posibl i ddysgu.
- Cododd un o'r Aelodau bryder fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y chwartel isaf a dywedodd fod y gwasanaeth wedi derbyn mwy o gyllid yn y blynyddoedd diwethaf. Awgrymwyd y dylai hyn gael ei godi yn y Pwyllgor priodol sy'n craffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd bod pob un o'r mesurau yn cael eu monitro, gan gynnwys y rheiny yn y chwartel isaf.
- Dywedodd un o'r Aelodau y dylai pawb fod yn falch o'r canlyniadau cadarnhaol ac y byddai modd i'r Aelodau Etholedig rannu'r data â'u hetholwyr.

**Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:**
**Argymhelliad:**
Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi canlyniadau Proffil Perfformiad yr Awdurdod Lleol.
**Rheswm dros y penderfyniad:**
Er mwyn rhannu gwybodaeth am berfformiad cyffredinol yr awdurdod a oedd wedi'i gasglu gan Data Cymru.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi canlyniadau Proffil Perfformiad yr Awdurdod Lleol.

**38 Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Preswylwyr (1 Awst 2024 i 31 Hydref 2024)**
Unwaith eto, bu i'r Cadeirydd groesawu Rob Starr, Rheolwr Ymchwil a Pherfformiad i'r cyfarfod i gyflwyno Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth y Pwyllgor fod 1,961 o ymatebion wedi dod i law. Roedd hyn yn cyfateb i 3.1% o boblogaeth Ceredigion sy'n 16 oed neu'n hŷn. Dywedodd ei bod yn destun siom fod nifer o breswylwyr yn anhapus â'r Awdurdod. Hefyd, dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bosibl nad

oedd rhai o’r preswylwyr wedi cael cysylltiad personol â’r Cyngor ond eu bod wedi darllen y straeon negyddol a gyhoeddir bob wythnos yn y Cyfryngau. Diolchodd yr Arweinydd i’r Staff am eu gwaith di-flino yn ystod pandemig Covid a Storm Darragh ac am wneud llawer iawn yn fwy na’r hyn yr oedd disgwyl iddynt ei wneud fel rhan o’u dyletswyddau o ddydd i ddydd.

Hefyd, diolchodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Evans, i Wasanaethau’r Cyngor am eu gwaith yn ystod y storm yn ddiweddar.

Menter newydd yw Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr a’r bwriad yw cefnogi awdurdodau lleol i fodloni eu gofynion ymgynghori. Mae'n rhan o’r gwaith y mae Rhaglen Gwella Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei wneud gyda Data Cymru.

Mae'r arolwg yn darparu methodoleg safonol a set safonol o gwestiynau ar gyfer cynnal arolygon ymhlith dinasyddion. I’r perwyl hynny, mae Data Cymru yn cynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol ac mae’n darparu dangosfwrdd o'r canlyniadau i gynorthwyo â’r gwaith dadansoddi unwaith y bydd yr arolwg wedi cau. Mae hyn yn cynnwys gwaith meincnodi ar gyfer cymharu â chynghorau eraill. Nid oes cost i’r awdurdodau lleol gan fod y fenter hon yn cael ei darparu yn rhad ac am ddim. Mae’r manteision o fabwysiadu'r Arolwg Cenedlaethol Preswylwyr fel a ganlyn:
• Ceir methodoleg safonol a set safonol o gwestiynau
• Ceir dull gweithredu y mae pob un o’r 22 awdurdod lleol ledled Cymru wedi cytuno iddo
• Mae'r arolwg yn cael ei gynnal yn annibynnol gan Data Cymru
• Mae’n darparu data meincnodi ar gyfer cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Hyd yn hyn, mae 11 awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r arolwg a rhagwelir y bydd mwy yn ymrwymo iddo yn ystod y misoedd nesaf. Cytunodd Ceredigion i fabwysiadu Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr ar 17/4/2024 a chynhaliwyd yr arolwg cyntaf rhwng 1/8/2024 a 31/10/2024. Ceredigion oedd y cyngor cyntaf i gynnal Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr, felly does dim canlyniadau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer eu cymharu â chynghorau eraill.

Derbyniwyd cyfanswm o 1,961 o ymatebion, sy’n llawer uwch nag Arolwg Rhanddeiliaid y flwyddyn flaenorol pan gafwyd 148 o ymatebion. Mae hyn yn cyfateb i 3.1% o boblogaeth Ceredigion sy'n 16 oed neu'n hŷn.

Fel y rhagwelwyd, derbyniwyd clystyrau o ymatebion o drefi Aberystwyth, Aberaeron a Chei Newydd, ond tipyn llai o ymatebion gan drigolion Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a de'r sir.

Cynhaliodd Data Cymru ymarfer gwirio data cyn i'r ymatebion gael eu darparu i'r Cyngor i'w dadansoddi. Gwaredodd yr ymarfer hwn rai ymatebion yn unol â'r meini prawf canlynol:
• Nid oes digon o wybodaeth wedi’i ddarparu.
• Ceir amheuaeth bod yr ymatebion wedi’u cyflwyno gan *bot*.
• Roedd ymateb cyflawn wedi’i gyflwyno a oedd yn disodli ymateb rhannol.

Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u rhannu'n bedair adran. Mae 10 cwestiwn yn ymwneud â'r ardal leol, 33 cwestiwn yn ymwneud â'r Cyngor a'i wasanaethau, 2 gwestiwn yn ymwneud â rôl cynghorwyr lleol a 2 gwestiwn yn ymwneud â chwblhau'r arolwg. Gofynnwyd cyfres safonol o gwestiynau monitro cydraddoldeb hefyd i gynorthwyo â'r gwaith o ganfod a oedd sampl yr arolwg yn cynrychioli barn trigolion Ceredigion.

Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn dangos bod trigolion ar y cyfan yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw.

• Mae 57% o'r ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw ynddo (mae 32% yn anfodlon iawn neu'n weddol anfodlon).
• Mae 73% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno rhannol fod pobl yn eu hardal leol yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd (mae 11% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno i raddau).
• Mae 66% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i raddau eu bod yn teimlo'n rhan o'u hardal leol (mae 17% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno i raddau).
• a byddai 67% yn argymell Ceredigion fel lle i fyw ynddo (ni fyddai 33% yn gwneud hynny).

Fodd bynnag, mae'r sawl wnaeth ymateb i'r arolwg yn llai bodlon â'r Cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae hyn yn dilyn y duedd a welwyd mewn rhai ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu diweddar lle derbyniwyd lefel uchel o ymatebion negyddol. Er enghraifft,

• Mae 9% o'r ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg pethau (mae 82% yn anfodlon iawn neu'n weddol anfodlon).
• Mae 23% o'r farn bod y Cyngor, i raddau helaeth neu i raddau cymedrol, yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
(mae 76% o'r farn nad yw'r Cyngor yn gwneud hyn o gwbl neu nad yw'n gwneud hyn rhyw lawer).
• Mae 16% yn cytuno bod y Cyngor, i raddau helaeth neu i raddau cymedrol, yn darparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian (mae 81% o'r farn nad yw'r Cyngor yn gwneud hyn o gwbl neu nad yw'n gwneud hyn rhyw lawer).
• Mae 9% o'r farn bod y Cyngor, i raddau helaeth neu i raddau cymedrol, yn gweithredu ar bryderon y trigolion lleol (mae 88% o'r farn nad yw'r Cyngor yn gwneud hyn o gwbl neu nad yw'n gwneud hyn rhyw lawer).
• Mae 21% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau fod cysylltu â'r Cyngor yn syml (mae 63% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno i ryw raddau)
• Mae 20% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i ryw raddau fod cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor yn hawdd (mae 57% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno i ryw raddau).

Ar y llaw arall, roedd cytundeb ymhlith yr ymatebwyr bod gwasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol hygyrch ac ar gael yn newis iaith y dinesydd.

• Mae 53% yn credu bod gwasanaethau'r cyngor ar gael mewn ffurf sy'n hygyrch iddynt bob amser (dywedodd 36% bod hyn yn digwydd weithiau a dywedodd 2% fod hyn byth yn digwydd).

• Mae 71% yn credu bod gwasanaethau'r cyngor ar gael yn eu dewis iaith bob amser (dywedodd 22% fod y gwasanaethau ar gael yn eu dewis iaith weithiau a dywedodd 1% fod y gwasanaethau byth ar gael yn eu dewis iaith). Mae Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr hefyd yn cynnwys dau gwestiwn sy’n ymwneud â chynghorwyr lleol. Ar draws Ceredigion, mae mwyafrif yr ymatebwyr sef 70% yn gwybod pwy yw eu cynghorydd lleol ond nid yw 30% yn gwybod. Mae cyfran uwch fyth o'r ymatebwyr (83%) yn ymwybodol o holl gyfrifoldebau neu rai o gyfrifoldebau cynghorwyr lleol ond nid oedd 17% yn ymwybodol.

Mae'r ddau gwestiwn olaf yn ymwneud â chwblhau'r arolwg. Roedd ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr wedi dod i wybod am yr arolwg drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar wahân i un y Cyngor ei hun. Roedd 18% wedi clywed am yr arolwg drwy gyfrif cyfyngau cymdeithasol y Cyngor ac roedd 19% wedi’i ddarganfod trwy amrywiaeth eang o sianeli eraill yr oedd modd i’r ymatebwyr eu nodi yn eu hatebion. Roedd 7% wedi dod i wybod am yr arolwg yn dilyn e-bost gan y Cyngor ac roedd Cynghorydd wedi dweud wrth 2%. Nododd 3% nad oeddent yn gwybod.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (89%) o’r farn fod yr arolwg yn hawdd iawn neu'n weddol hawdd i'w gwblhau ac roedd 9% wedi nodi nad oedd yn hawdd nac yn anodd i’w gwblhau. Dim ond 2.4% oedd wedi’i chael hi'n anodd iawn neu'n weddol anodd ei gwblhau.

Pan gaiff canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr eu cymharu â pherfformiad uchel y Cyngor mewn asesiadau rheoleiddiol diweddar a metrigau perfformiad megis arolygiad llawn Estyn ym mis Gorffennaf 2024 a chanlyniadau proffil perfformiad diweddaraf yr Awdurdod Lleol, mae'n amlwg fod anghysondebau rhwng canfyddiadau dinasyddion Ceredigion a’r perfformiad. Mae'r canlyniadau hefyd yn caniatáu i’r Cyngor gael gwell dealltwriaeth o bryderon preswylwyr yn ystod cyfnod o setliadau cyllidebol anodd dro ar ôl tro, sydd wedi arwain at yr angen i gynyddu ffioedd i greu incwm law yn llaw â chyflwyno mesurau i wneud gwasanaethau'n fwy effeithlon.

Dyma’r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o’r drafodaeth:

- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd bod Data Cymru wedi cyflawni’r gwaith hwn yn rhad ac am ddim i’r Awdurdod.
- Yn dilyn cwestiwn gan un o’r Aelodau ynghylch y modd yr aethpwyd ati i gytuno ar y cwestiynau, cadarnhaodd un o’r Swyddogion fod Data Cymru wedi cysylltu â’r Awdurdodau ac yn sgil hynny wedi mynd ati i baratoi arolwg ar-lein gyda chopïau caled ar gael os gwneir cais amdanynt ac opsiwn i gwblhau’r arolwg dros y ffôn.
- Mynegodd un o’r Aelodau ei siom nad oedd dim byd negyddol yn y blaenadroddiad. Ar ôl awgrym, cytunwyd y dylai’r canrannau uchaf ymddangos yn gyntaf. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y swyddogion y byddai’r ffigurau uchaf yn cael eu cyhoeddi yn gyntaf ac y byddai’r adroddiad yn cael ei ddiwygio.

- Cydnabuwyd bod y papur hwn yn adrodd stori wahanol i'r papur blaenorol a oedd yn dangos perfformiad rhagorol y Cyngor o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill ar draws Cymru. Awgrymwyd bod angen gwneud mwy i gyfathrebu negeseuon cadarnhaol i'r preswylwyr ac y dylai'r canlyniadau hyn gael eu tracio dros amser i fonitro'r tueddiadau.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnodd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried y canlynol:
**Argymhelliad:**

1. Bod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn nodi Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr.

**Rhesymau dros y Penderfyniad:**
Er mwyn rhannu gwybodaeth am farn dinasyddion Ceredigion ar fywyd yng Ngheredigion gan gynnwys y gwasanaethau y maent yn eu derbyn gan Gyngor Sir Ceredigion.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr a diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor a'r Swyddogion am fod yn bresennol i ateb cwestiynau yn ystod y cyfarfod.

**39 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC) a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2024**

Croesawyd Hazel Lloyd Lubran, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, a Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl, i'r cyfarfod. Cyflwynodd Hazel Lloyd-Lubran, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yr adroddiad.

O dan Adran 35 o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i CAVO am ddosbarthu'r grantiau i gynorthwyo â thlodi plant a mannau cynnes. Dywedodd Hazel Lloyd-Lubran fod CAVO yn hyn o beth yn gweithio'n agos iawn gyda Chyngor Sir Ceredigion.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran gweithio gydag Awdurdodau eraill. Cadarnhawyd bod un cyfarfod llwyddiannus wedi'i gynnal hyd yma.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

**Argymhelliad:**

Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2024.
**Rheswm dros y penderfyniad:**
Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2024 a diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu gwaith caled parhaus.

**40 Polisi Chwythu'r Chwiban**

Croesawyd Elin Prysor, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, i'r cyfarfod i gyflwyno Polisi Chwythu'r Chwiban.

Dywedodd Elin Prysor wrth Aelodau'r Pwyllgor fod Polisi Chwythu'r Chwiban wedi'i adolygu a bod newidiadau wedi'u gwneud i sicrhau bod y polisi yn gyfredol.

Roedd y prif newidiadau fel a ganlyn:
• Y rhagymadrodd
• Beth yw chwythu'r chwiban?
• Mwy o fanylion am sut i godi pryder
• Cyfrinachedd
• Datgelu gwybodaeth y tu allan i'r Cyngor
• Diweddaru manylion cyswllt personau a chyrff penodedig
• Sut y bydd y Cyngor yn ymateb
• Diogelwch

Yn dilyn trafodaeth, nodwyd y canlynol:
- Cadarnhawyd bod yr hyfforddiant ar gael i bob Aelod ar Cerinet.
- Cadarnhaodd y Swyddog fod un atgyfeiriad yn parhau ac yn destun ymchwiliad.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:
**ARGYMHELLIAD:**
**1.** nodi cynnwys yr adroddiad, ac
2. argymell y polisi wedi'i ddiweddaru (Atodiad 1) i'w gymeradwyo gan y Cabinet.
**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Er mwyn sicrhau bod Polisi Chwythu'r Chwiban a'r modiwl E-ddysgu yn gyfredol a'u bod yn parhau'n addas at y diben.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo Polisi Chwythu'r Chwiban sydd wedi'i ddiweddaru.

**41 Cadarnhau cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny**

**CYTUNWYD** i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2024 yn gywir. Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion hynny.

**42 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Bu i Gadeirydd, Is-gadeirydd neu Swyddog Trosolwg a Chraffu pob Pwyllgor ddarparu gwybodaeth yn eu tro am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ychwanegu'r canlynol at y Flaenraglen Waith:

- Gweithwyr Asiantaeth a Recriwtio – Pwyllgor Cydlynu

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddod i'r cyfarfod, i'r Swyddogion a'r Aelodau Cabinet am gyflwyno'r adroddiadau ac i'r cyfieithwyr, Lisa Evans a Dwynwen Jones am eu cymorth yn ystod y cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 3 Chwefror 2025**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________